CYNGOR CYMDEITHAS
LLANNERCH-Y-MEDD
COMMUNITY COUNCIL

**24.06.21**
**7 pm**

# CYFARFOD LLAWN/ *FULL MEETING*
## *Cyfarfod ZOOM*
## *NODIADAU*

| | |
|---|---|
| 1 | **Croeso ac Ymddiheuriadau**<br>**Presennol:** JAJ (Cadeirydd); DW; TAJ; RJ; DP; JOJ; AR GW; DL; EO;<br>**Ymddiheuriadau:** IW; DM; BJ;<br>**Mynychu:** SWR ; Cyng. Llinos Medi a Ken Hughes<br>Dymunwyd yn dda i Cyng. Ifan Hughes ar ei ben blwydd arbennig yn ddiweddar. |
| 2 | **Datgan Diddordeb**<br>Datganodd KH ddiddordeb yn Eitem 6 Cynllunio |
| 3 | **Cofnodion 25.03.21**<br>a) Cyflwynwyd a derbyniwyd cofnodion 27 Mai 2021 fel rhai cywir ( DW/DP)<br>b) Materion yn codi - dim i law<br>Diweddarwyd y Cynllun Gweithredu i greu fersiwn 24.06.21 |
| 4 | **Materion Trwy'r Gadair**<br>**GW –** adroddodd bod ymgeisydd cais cynllunio Bryn Gollen Newydd yn ceisio cefnogaeth y Cyngor Cymdeithas. Cadarnhawyd bod y Cyngor Cymdeithas wedi nod cefnogaeth eisoes drwy'r sianelau ffurfiol.<br>Nododd bod cynrychiolaeth o Lein Amlwch (Carys Hughes) am gael cyfle i anerch y Cyngor Cymdeithas i adrodd ar y datblygiadau mwyaf diweddar. Cytunwyd i'r Clerc drefnu<br>**RJ –** adroddodd ar garffosiaeth yn gollwng ger yr Hen Ficerdy a bod Dwr Cymru wedi ymateb yn sydyn i adfer y sefyllfa.<br>Trafodwyd y cais gan CSYM i enwi y ffordd o Llan i Gwyndy a nodwyd |


Mrs Sydna Roberts
Clerc
Cyngor Cymdeithas Llannerchymedd
Bryn Odol
4 Bryncir
**LLANNERCH-Y-MEDD**
**Ynys Môn LL71 8EG** Ffôn: 01248 470383
sydnaroberts@btinternet.com

| | |
|---|---|
| | bod sawl enw ar lafar ond fe gytunwyd bod Lon Teilia yn dderbyniol.<br><br>**TAJ –** Nododd bod Eglwys Coedana angen ei thori – Clerc i gysylltu a Rhys Williams.<br><br>Cyfeiriodd at y bwriad o leihau oriau yn y Feddygfa fyddai yn ei gwneud yn anodd i rai sy'n gweithio 9-5 gael apwynitad. Clerc i holi'r Rheolwr Practis.<br><br>Cyfeirodd at nifer o ardaloedd drwy'r pentref sydd angen sylw h.y. chwynu, tocio coed a thwtio cyffredinol. Cytunodd RJ i holi CSYM am yr amserleni chwynu ac adrodd yn ôl i'r cyfafod nesaf.<br><br>**AR –** holodd os oedd Meddyg Teulu yn bresennol yn y Feddygfa ar pob achlysur mae'n agored. Mynegodd bryder os nad oes fferyllydd cymwysedig ar gael chwaith. Eto, Clerc i holi'r Rheolwr Practis.<br><br>Cyfeiriodd at broblem baw ci yn y Walk. Adroddwyd bod y bocsus bagiau baw ci yn cyrraedd ddechrau Gorffennaf a bod rhagor o arwyddion wedi eu casglu o Red Rock Grafix i fynd i fyny run amser a'r bocsus. Atgoffwyd pawb bod rhaid rhoi pob manylion posib i Warden Cwn CSYM cyn y gall weithredu'n ffurfiol ar ein rhan.<br><br>**JAJ –** adroddod am gymlethdodau mesurydd dwr yn y Cae Peldroed. Mae Dwr Cymru bellach wedi adnabod y diffyg ac yn bwriadu gosod mesurydd newydd ddechrau Gorffennaf.<br><br>Rhannodd newyddion da iawn bod cyfeillion 'Party on the Pitrch' yn bwriadu ariannu defibrillator i'w osod yn y cae peldroed. Mae hyn o ganlyniad i'r peldroediwr yn yr Ewros gan trawiad ar y cae yn ddiweddar. Cytunwyd i'r Clerc ysgrifennu at Rachael Young, un o'r arweinyddion, i ddiolch i'r grwp am eu meddwlgarwch.<br><br>Cwots codi ffensus yn Cae Gofeb i law. Yn dilyn trafodaeth penderfynwyd mynd am 4' o uchder gyda pyst concrid a giat 12' hanner mesh. Clerc i weithredu |
| **5** | **Materion Cyllidol a Thaliadau**<br><br>**Taliadau Misol**<br>**Gwariant ers cyfarfod Mai** **£**<br><br>Ôl daliad cyflog Clerc yn unol a chofnodion<br>mis Mawrth 2021 – 2097.48<br>360 Groundworks CPD (ôl daliad o £675 gan y Clwb) 810.00<br>Scottish Power CPD 131.68<br>Costau Archwiliwr Mewnol Mr JA Foulkes 100.00 |


Mrs Sydna Roberts
Clerc
Cyngor Cymdeithas Llannerchymedd
Bryn Odol
4 Bryncir
**LLANNERCH-Y-MEDD**
**Ynys Môn LL71 8EG** Ffôn: 01248 470383
sydnaroberts@btinternet.com

| | |
|---|---|
| | Arwyddion rhybudd  Baw Ci – Red Rock Grafix 133.92<br><br>**Biliau cyfredol**:<br>Cyflog Clerc Ebrill Mai Mehefin (£1633.47) a thri taliad trwydded ZOOM (14.39 X3 £43.17)  Cyfanswm = 1676.64<br><br>Cafwyd diweddariad gan y Clerc am y sefyllfa ariannol gyfredol.<br><br>**Cyfrifon Blynyddol**<br>Cylchredwyd y cyfrifon (sydd wedi eu cymerwyo gan yr Archwilydd Mewnol) gyda adroddiad yr Archwilydd eisoes.  Gwahoddodd y Clerc unrhyw gwestiynau gan yr aelodau.  Ni ddebyniwyd ond fe gymeradwywyd y cyfrifon a derbyniwyd cynnwys adroddiad yr Archwiliwr yn unfrydol (TAJ/DP).  Diolchwyd i'r Clerc am ei gwaith yn sicrhau cyfrifon safonol.  Bydd yr Adroddiad Blynyddol yn cael ei harwyddo gan y Cadeirydd a'r Clerc cyn ei hanfon at Swyddfa Archwilio Cymru erbyn 30.6.21. |
| **7.** | **Materion Cynllunio**<br><br>**Cais: HHP/2021/171 – Dolfor Llannerchymedd –** dim gwrthwynebiad<br><br>**Cais: FPL/2021/125 -  Hen Felin Llannerchymedd –** dim gwrthwynebiad |
| **8** | **Unrhyw Fater Arall –** dim i law<br><br>*Daeth y cyfarfod i ben am 8.50* |


Mrs Sydna Roberts
Clerc
Cyngor Cymdeithas Llannerchymedd
Bryn Odol
4 Bryncir
**LLANNERCH-Y-MEDD**
**Ynys Môn  LL71 8EG**
Ffôn:  01248  470383
sydnaroberts@btinternet.com